




# Her Archwiliwr Lleol

## Archaeoleg a Natur

**Eleni, rydym yn gofyn i chi fynd allan i archwilio'r archaeoleg a'r byd natur yn eich cymdogaeth a thu hwnt. Rydym wedi creu her i chi ei chyflawni gyda theulu neu ffrindiau.**

Rydym wedi ymuno gyda'r **Cod Cefn Gwlad** er mwyn annog pawb i Barchu, Gwarchod a Mwynhau yr awyr agored wrth ddarganfod hanesion y gorffennol sydd ynghudd yn ein tirweddau.

**Ydych chi'n gallu llenwi rhes gyfan neu golofn gyfan?**
**Neu'n well fyth, ydych chi'n gallu ticio'r cerdyn cyfan??**

| | | | |
|---|---|---|---|
|   Anifail fel addurn |  Coeden hynafol |  Cen |  Adeilad gyda fframweithiau pren |
|  Strwythur sy'n gysylltiedig â dŵr |  Arwyneb coblog |  Synau byd natur |  Lle wedi'i enwi ar ôl natur |
|  Sbwriel |  Adeiladau neu nodweddion wedi'u creu ar gyfer anifeiliaid |  Arwyddion anifeiliaid |  Arwyddion a Symbolau |

# Ddim yn siŵr o ystyr yr holl dermau? Dyma ein cliwiau!

## Anifail fel addurn

Efallai y byddwch yn dod o hyd i un mewn man addoli neu rhowch gynnig ar arwydd tafarn neu faner! Bu'r rhain yn rhai o'r ffyrdd mwyaf poblogaidd yn hanesyddol o ychwanegu addurniad i fannau adeiledig.

## Coeden hynafol

Coeden Ywen mewn mynwent eglwys neu goeden hŷn yng nghefn gwlad. Ydych chi'n gallu dod o hyd i arwyddion bod y goeden yn hŷn, pa fath o goeden ydy hi?

## Cen

Ydych chi'n gallu dod o hyd i gen yn tyfu ar wal garreg, carreg fedd, adeilad neu goeden? Gall cennau ddweud llawer wrthym am oed a chyflwr mannau hanesyddol ac ansawdd yr amgylchedd o'u cwmpas.

## Adeilad gyda fframweithiau pren

Yn hanesyddol, roedd llawer o adeiladau'n defnyddio fframiau pren i gynnal eu waliau. Ydych chi'n gallu gweld un?

## Strwythur sy'n gysylltiedig â dŵr

Yn hanesyddol, arferai afonydd a moroedd gael eu defnyddio i gludo pobl a nwyddau yn haws nag ar hyd ffyrdd nad oeddent yn y cyflwr gorau! Ydych chi'n gallu dod o hyd i bont, pier neu ddoc sy'n cysylltu pobl â'r dŵr?

## Arwyneb coblog

Cerrig yw "coblau" sydd fel arfer wedi'u gwneud yn llyfngrwn gan ddŵr, felly nid oes ganddyn nhw ymylon siarp. Cyn tarmac, byddai'r cerrig hyn yn cael eu gosod yn arwyneb y ffyrdd i greu arwyneb oedd yn gwisgo'n dda. Nes ymlaen, roedd brics a cherrig gwastad hefyd yn cael eu defnyddio i greu arwyneb mwy llyfn!

## Synau byd natur

Caewch eich llygaid. Pa synau ydych chi'n gallu eu clywed? - coed, dŵr, anifeiliaid ar safle treftadaeth?

## Lle wedi'i enwi ar ôl natur

Gallai hyn fod yn anifail, tirwedd neu blanhigyn - ydych chi'n gallu dod o hyd i dref, stryd neu adeilad yn eich ardal leol chi sydd â chysylltiad â Natur?

## Sbwriel

Ydych chi'n gallu gweld sbwriel na ddylai fod yna? Mae enghreifftiau cyffredin yn cynnwys papurau bwyd, caniau diod, poteli plastig, bagiau baw ci a barbeciws tafladwy. Cofiwch: Peidiwch â gadael unrhyw beth ar ôl ac ewch â'ch sbwriel gartref. Mae gofalu am dreftadaeth a byd natur yn dechrau gyda gweithredoedd bychain.

## Adeiladau neu nodweddion wedi'u creu ar gyfer anifeiliaid

Chwiliwch am gytiau colomennod, corlannau, blychau ystlumod, blychau adar neu fylchau mewn waliau cerrig sy'n galluogi anifeiliaid i symud drwy'r dirwedd. Ers tro, mae pobl wedi bod yn creu mannau i gynnal da byw a bywyd gwyllt.

## Arwyddion anifeiliaid

Ydych chi'n gallu dod o hyd i unrhyw arwyddion sy'n dweud bod anifeiliaid yma, fel ceirw, gwiwerod neu hwyaid?

## Arwyddion a Symbolau

Wrth grwydro, chwiliwch am arwyddion sy'n helpu ymwelwyr i fwynhau'r awyr agored mewn modd cyfrifol. Gallai'r rhain gynnwys:

- Arwyddion Hawliau Tramwy Cyhoeddus
- Arwyddion tir Mynediad Agored
- Arwyddion da byw neu gadw cŵn dan reolaeth
- Canllawiau gwarchodfa natur
- Hysbysiadau dim barbeciw neu risg tân

## Cynghorion i Archwilwyr!

Wrth gwblhau'r her, cofiwch dair egwyddor allweddol y Cod Cefn Gwlad:

**Parchu pawb**
**Gwarchod yr amgylchedd**
**Mwynhau'r awyr agored**

Drwy ddilyn y Cod, byddwch yn helpu i warchod ein hamgylchedd naturiol yn ogystal â'r lleoedd archaeolegol a hanesyddol sy'n gwneud ein tirweddau mor arbennig.

Cod Cefn Gwlad
Countryside Code

CBA
GŴYL ARCHAEOLEG